

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 1 Rhif 5

Yn rhad ac am ddim

Awst 2020

Hedbangars Byd Natur

Pan dach chi'n dechrau meddwl yn ddwfn am fydd

natur dach chi'n sylweddoli bod popeth yn ffitio efo'i gilydd fel jigso enfawr. Dim ond rhywun fel Sir David Attenborough sydd â gobaith i osod pob darn yn ei le a dw i'n siŵr nad oes ganddo fo ateb i bob cwestiwn.



Meddylwch am adar, yn fras, eu pwrpas nhw yw bwyta, ond mae rhai yn bwyta hadau, rhai yn bwyta pryfed genwair, eraill yn bwyta morgrug, rhai pysgod a rhai eggsotig yn ffafrio neithdar. Pawb at y peth y bo! Ond beth bynnag yw'r rheswm bodoli mae'r Bod Mawr wedi sicrhau bod eu cyrff yn addas at y pwrpas. I'r rhai sydd yn bwyta hadau caled mae O wedi rhoi pig groes iddyn nhw, pig hir i'r rhai sydd yn hoffi neithdar, ac yn y blaen. Ond ym mhob teulu mae rebel, rhywun sydd eisiau creu sŵn fel oedd yr hen grwpiau pync. Pwy ydyn nhw tybed? Wel hedbangar byd adar yw cnoCELLAU'R COED. Mae'n aderyn 'high impact' go iawn. Mae'n mynd allan yn y bore a threulio'r diwrnod cyfan yn taro ei big i mewn i ryw goeden. Dychmygwch, mae o'n cyrraedd adref ac mae ei wraig yn gofyn "Sut fath o ddiwrnod wyt ti wedi cael, cariad?" A ydi o'n ateb "Paid â gofyn, mae gen i gur pen ofnadwy?" Wel na, dydi o ddim, mae'n dweud "O go dda w'st

ti, mae'r diwrnod wedi bod braidd yn hir a'r gwaith yn 'boring' wrth gwrs, neis bod adra!"

Y peth yw, ac efallai nad ydych yn gwybod hyn ond, tu ôl i'w big mae math o 'shock absorber' felly does dim rhaid i'w wraig ddod â Paracetemols iddo ar ddiwedd pob dydd, clyfar ynte!

Yn ddiweddar, wrth fynd i'r gegin efo llestri i olchi gwelais i gnoCELLAU'R COED ar

y lawnt, y fam a'r cyw. Roedd y fam yn brysur yn dangos i'r cyw sut i chwilio am bryfed genwair. Roedd hyn yn gyfle rhy dda i golli ac es i i nôl y camera a dechrau tynnu lluniau ohonyn nhw trwy'r ffenest. Doedd y cyw ddim yn cael llawer o lwc ac yn sydyn dyma'r fam yn troi ato a stwffio ei phig i mewn i'w geg, doeddwn i ddim yn disgwyl tynnu llun o'r fath ac mae'n llun i'w werthfawrogi

Nid ydych yn gwybod am faint bydd adar yn aros yn yr un lle, pan dach chi'n gweld rhywbeth fel hyn mae'n rhaid i chi wneud penderfyniad, gadael y ffenest a chwilio am y camera neu aros a mwynhau. Dw i'n falch iawn fy mod i wedi tynnu'r llun yma, fy mod i wedi dewis mynd i nôl y camera. Pan nes i adael y ffenest dim ond dau aderyn oedd yna, digon diddorol ond petaswn i wedi aros a gweld hyn mi fydda i wedi difaru peidio mynd i nôl y camera.

Fy Nhaith Gymraeg

gan Martin Jones

I dechrau o'r dechrau, mae rhaid i fi gyfaddef rhywbeth: pan oeddwn i yn yr ysgol, roeddwn i'n casau dysgu Cymraeg. Roeddwn i wrth fy modd dysgu ieithoedd eraill fel Ffrangeg a Sbaeneg achos taw ieithoedd "dod ymlaen yn y byd" oedden nhw. Ond clywais i'r un gair o Gymraeg pan oeddwn i'n tyfu lan yn y Mwmbwls, ac i fi, bryd hynny, gwastraff amser oedd dysgu Cymraeg. Ac wrth gwrs, roedd gyda fy rhieni – fel mwyafrif llethol rhieni mewn ardaloedd Saesneg eu hiaith – yr un agwedd at yr iaith. Ond, diolch byth, wrth i fi ddod yn hŷn (ac efallai yn fwy doeth!), mae fy agwedd wedi newid, a does ddim amheuaeth bod fy mywyd wedi cael ei gyfoethogi gan ddysgu Cymraeg.

Yn edrych yn ôl, galla i weld i'm hagwedd at Gymraeg newid dros gyfnod hir, ac rydw i'n meddwl i hyn ddechrau pan ddechreuais i weithio yng Nghastell-nedd lle clywais i bobl yn siarad Cymraeg bron bob dydd. Efallai am y tro cyntaf yn fy mywyd, roeddwn i'n sylweddoli taw iaith fyw oedd y Gymraeg! Ond, er gwaethaf hynny, parhaodd i mi gael fwy o ddiddordeb mewn dysgu Sbaeneg na dysgu Cymraeg achos ein bod ni'n ymweld â Sbaen yn gyson ac roedd fy ngwraig hefyd yn dysgu Sbaeneg.

Wedyn, rydw i'n cofio gwylio rhaglen deledu am y Wladfa a theimlo tipyn yn anesmwyth fy mod i'n gallu deall y bobl yno pan oedden nhw'n siarad Sbaeneg ond dim pan oedden nhw'n siarad Cymraeg. Felly, pan ges i'r cyfle i ymuno â chwrs "Cymraeg yn y Gweithle," penderfynais i roi cynnig arni hi, a dyna oedd fy nghanm cyntaf ar fy nhaith Gymraeg. Ond tipyn yn fyr oedd rhan gyntaf o'r daith. Aeth pethau yn y swyddfa'n brysur iawn oherwydd ad-drefniad llywodraeth leol, ac yn fuan roedd y ffidl yn y tô - lle efallai y byddai fe wedi aros, oni bai am fy niddordeb yn hanes fy nheulu. Des i i ddeall taw Cymraeg oedd

iaith teulu fy nhad, ac roedd hyn yn fy ysbrydoli i ail-ddechrau dysgu Cymraeg, yn enwedig ar ôl i fi ddod o hyd i hunangofiant wedi'i ysgrifennu (yn Gymraeg, wrth gwrs) gan fy hen hen dad-cu. Peth rhyfedd oedd hi i ddeall dim ond ychydig o'r hyn roedd perthynas i fi wedi'i ysgrifennu. Felly, doedd dim dewis ond ymuno â dosbarth Cymraeg.

Wrth i'm Cymraeg gwella, dechreuais i ddarllen llyfrau Cymraeg: yn gyntaf, llyfrau yn y gyfres "Storiâu Sydyn" a nofelau ar gyfer plant yn eu harddegau. Wedyn ymunais i â dosbarth newydd lle'r oedd pawb yn siarad am "Blasu," a fi heb wybod am beth roedden nhw'n siarad! Ond yn fuan dyna oeddwn i'n rhoi cynnig ar fy nofel i oedolion gyntaf. Ar y dechrau, roedd hi dipyn yn anodd ond po fwyaf y darllenais i, hawsaf y daeth hi. Ac wedi'i gorffen, am y tro cyntaf, roeddwn i'n teimlo rhyw gysylltiad â'r gymuned Gymraeg - achos roeddwn i wedi mynd stepen yn agosach wrth ddefnyddio fy Nghymraeg tu allan i'r dosbarth..

Ar yr un pryd, roedd grŵp ohonon ni'n cwrdd bob wythnos yn y caffi lleol i ymarfer ein Cymraeg. Ond er mor ddymunol a chynorthwyol oedd y sgysiau hyn yn y caffi (ac rydw i'n edrych ymlaen atyn nhw barhau am flynyddoedd), i fi doedd ddim cysylltiad go iawn â'r gymuned Gymraeg ar wahân i gael sgwrs ag ambell siaradwr Cymraeg a ddigwyddodd ein clywed ni'n siarad. Ond wedyn, awgrymodd Cymraes a oedd wedi dechrau ymuno â ni y dylwn i (a phobl eraill yn y grŵp) ymuno â Chymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt. Wel, ar y naill law roedd hyn yn syniad cyffrous ond ar y llaw arall roeddwn i'n nerfus iawn am fynd i mewn i amgylchedd hollol Gymraeg. Ond doedd dim angen poeni - roedd pawb mor groesawgar ac mor gyfeillgar. A heb amheuaeth, o ganlyniad i ddod yn aelod o'r Gymdeithas rydw i wedi dod i deimlo fy mod i'n rhan o'r gymuned Gymraeg yn Abertawe - nid yn unig o ganlyniad i fynd i gyfarfodydd y

Gymdeithas, ond hefyd achos fy mod i wedi dod i adnabod nifer o siaradwyr Cymraeg a'n hiaith cyfathrebu yw'r iaith Gymraeg. Mae ymuno â'r Gymdeithas wedi agor drysau Cymraeg eraill i fi. Er enghraifft, rydw i wedi mynd i nifer o ddigwyddiadau Cymraeg: teithiau, prydau o fwyd, gemau criced, ac yn y blaen.

Yn ail rifyn Y Wennol Newydd, ysgrifennodd Rob pa mor anodd ydy e i ddysgwyr ddod ar draws y ffordd i'r gymuned Gymraeg. Mae hyn yn wir, ac rydw i'n teimlo mor lwcus i fi gael hyd o'r ffordd honno.

Ymweliad â Thŷ Ddewi

gan Susan Gilson



Roedd hi'n ddiwrnod braf iawn pan adawon ni Llanelli ar ein trip CYD i sir Benfro.

Roedd yr haul yn disgleirio pan stopion ni yn Newgale i anadlu awyr y môr ac i edmygu'r brigdonwyr yn mwynhau'r tonnau mawr. Ond yn ôl i'r car ac ymlaen ar ein siwrnai. Dyma ni'n cyrraedd Tŷ Ddewi, y ddinas fwyaf bechan ym Mhrydain a gafodd y teitl yn swyddogol gan y Frenhines yn y flwyddyn 1996. Cwrddon ni ein ffrindiau ac erbyn hyn roedd chwant bwyd arnom ni, felly syth i Arfau'r Ffermwyr lle gawson ni pryd o fwyd blasus iawn.

Yr oedd yr haul yn disgleirio pan gerddon ni lawr y grisiau tuag at yr eglwys gadeiriol, adeilad mor drawiadol sy'n sefyll wrth ochr yr afon Alun.

Tu fewn i'r eglwys roedd popeth yn edrych mor daclus er gwaethaf yr holl ymwelwyr sy'n dod yma pob dydd.

Yn yr eglwys gadeiriol mae llawer o gapeli bach er enghraifft Capel Sant Thomas Becket, Capel Sant Nicholas a Chapel Mair. Hoffais y gwaith crefft yn enwedig y gwaith ffret yr oedd o gwmpas y Capeli bach.

Gwelsom ni gysegrfa Dewi Sant a Sant Caradoc. Yr oedd cerfddelw Geraldus Cambrensis yn sefyll yn falch ac yn gryf. Mae llawer o hanes a harddwch yma, yn enwedig yn y Drysorfa. Yma mae modrwy'r esgobion a'u croesau yn cael eu dangos hefyd mewn hen lawysgrifau. Roedd llawer o bethau arian i'w gweld yn awgrymu cyfoeth yr eglwys dros y blynyddoedd.

Os ewch chi mewn trwy Borth y Tŵr gallwch chi weld ffilm yn dangos y gerddoriaeth a'r addoliad sy'n mynd ymlaen yn yr eglwys gadeiriol. Ond roeddem ni'n lwcus iawn achos daeth yr organydd a dechreuodd chwarae'r organ. Eisteddodd rhai ohonom ni i fwynhau'r miwsig swynol.

Roedd yr haul yn disgleirio trwy'r ffenestri gwydr lliw ac yr oedd popeth yn edrych ac yn teimlo mor dangnefeddus. Cyneuais gannwyll a meddyliais am y gorffennol, meddyliais am fy nheulu sy'n byw ym mhob cornel o'r byd. Meddyliais am y dyfodol. Mae hi'n dda ambell waith i gymryd amser i freuddwydio!

Ond hei, nawr roedd hi'n amser ymweld â siop yr eglwys gadeiriol. Yma roedd llyfrau miwsig a digon o anrhegion ar werth. Prynais gwpl o bethau yn barod at y Nadolig.

Ar ôl cwpaned o goffi a theisen yn y Ffreutur o'r enw Neuadd Santes Fair roedd hi'n amser gadael. Daethon ni mas unwaith eto i'r heulwen. Cytunon

ni bod y diwrnod wedi bod yn ddiddorol a phleserus. Roeddwn i wedi dysgu llawer am hanes Tŷ Ddewi a'r eglwys gadeiriol a hefyd am ein gwlad. Roedden ni'n cael llawer o sbri gyda CYD Llanelli!

Ffotomarathonau Dan Glo

gan Jan Hill-Tout

Mae 'Ffotomarathon' yn fath o gystadleuaeth ffotograffiaeth sy'n agored i bawb. Os mae camera neu ffôn smart gyda chi, dych chi'n gallu cymryd rhan. Mae'r syniad yn eithaf syml. Ar ddiwrnod y gystadleuaeth mae pob cyfrannwr yn cael nifer o eiriau (neu frawddegau), 12 er enghraifft, ac erbyn diwedd y dydd bydd rhaid iddyn nhw wedi tynnu 12 llun yn cynrychioli'r geiriau - geiriau awgrymog fel 'cyffro', 'anhysbys' neu 'adref'. Erbyn diwedd y dydd mae rhaid i'r cyfranwyr cyflwyno eu ffotograffau i'r beirniaid, a dyna chi! Fel arfer mae'r trefnwyr yn cynnal dathliad ar ôl y gystadleuaeth ble mae'r ffotograffau i gyd yn cael eu harddangos ac mae enillwyr yn cael eu cyhoeddi. Mae e'n llawer o hwyl ac mae e'n agor i bob person a phob oedran.



Flutter

Dw i'n credu cafodd e'i dyfeisio gan ddau ffrind ym Madrid ym 1986, ac mae syniad wedi cael ei derbyn gyda brwdfrydedd. Cafodd y

gystadleuaeth ei mabwysiadu gan Copenhagen ym 1989 ac mae hi dal yn digwydd yna. Wedyn cafodd ffotomarathonau eu cynnal yn bellach i ffwrdd yn Ewrop ac erbyn hyn maen nhw'n digwydd mewn 80 gwlad dros y byd yn gynnwys Awstralia, America ac yn y Dwyrain Pell. Mae'r syniad yn heintus. Yn ogystal â bod yn ddiddorol a llawer o hwyl, mae ffotomarathonau yn denu ymwelwyr i'r ardal, ac mae'r lleoedd yn gallu arddangos beth sy'n arbennig amdanyn nhw.



Zingy

Rhai blynnyddoedd yn ôl cymeron ni ran yn y Ffotomarathon yng Nghaerdydd. Cawson ni 12 pwnc dros 12 awr, ac ar ddiwedd y dydd roedd 12 ffotograff i gyflwyno. Cafodd y gystadleuaeth ei leoli yn y Ganolfan Mileniwm, ac roedd e'n neis iawn ymlacio yn y caffi yna er mwyn dal ein gwynt a meddwl am syniadau creadigol (gobeithio!) cyn mynd mas ar gyfer tynnu lluniau. Ro'n ni'n trio ein gorau glas i dynnu ein lluniau gorau. A dweud y gwir roedd rhai o ffotograffiau cymeron ni yn ddiflas ond cawson ni lwc dechreuwyr achos roedd rhai ohonyn nhw wedi eu canmol gan feirniaid.

Yn anffodus symudodd y trefnwyr ymlaen ym 2017 ac mae hynny wedi rhoi diwedd ar Ffotomarathon yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, ond plannodd e syniad i ni yn ystod y cyfnod dan glo. Beth am drefnu'r un gystadleuaeth i'r teulu dros Whatsapp? Fel canlyniad, ynghyd â theulu a ffrindiau tramor, dyn ni wedi bod yn meddwl am bedwar pwnc pob dydd Sadwrn dros 14 wythnos a nawr mae casgliad hyfryd o ffotograffiau gyda ni. Dyn ni wedi penderfynu dod â hyn i ben yr wythnos nes a wedyn dw i wedi gwirfoddoli gwneud llyfr ar lein yn cynnwys pob llun. Bydd cof diddorol o'r amser anghyffredin yma ac mae e wedi atgoffa fi cymaint o hwyl yw'r ffotomarathonau. Gobeithio galla i gymryd rhan yn y byd go iawn cyn bo hir. A chi? Beth amdanoch chi?

delweddau. Dyma rhai enghreifftiau. **Giserau yn Yellowstone Yr Olygfa o ben yr adeilad Empire State yn Efrog Newydd Las Vegas** Wrth gwrs roedd dyfodiad camerau digidol wedi rhoi diwedd ar sleidiau lliw, a nawr gall y teulu mwynhau'r delweddau ar dabled, e.e. iPad neu hyd yn oed ar deledu



Delweddau o Hen Sleidiau Lliw

gan Michael Williams

Dw i'n ffotograffydd brwd ac ar y cychwyn fe ddefnyddiais ffilm du a gwyn, ond yn 1960 dechreuais ddefnyddio ffilmiau fel Kodachrome a oedd yn creu sleidiau lliw. Ar y pryd roeddwn i newydd gyrraedd Massachusetts gyda fy ngwraig newydd sbon i ddechrau fy swydd gyntaf ar ôl graddio. Yn ystod dwy flynedd fe deithion ni ledled y wlad ac fe dynnais fil o luniau. Cyn dod nôl i Brydain gwnaethon ni deithio i arfordir y gorllewin ac ymweld â llefydd enwog fel Parc Cenedlaethol Yellowstone, San Fransisco, Parc Cenedlaethol Yosemite, Las Vegas, ac yn y blaen. Wedyn gwnes i barhau i dynnu lluniau pan ar wyliau gyda'r teulu ym Mhrydain a Ffrainc. Ar ôl pob gwyliau roedd y teulu'n mwynhau gwyllo'r delweddau wedi'u taflunio ar sgrin. Yn ddiweddar penderfynais gael rhai o'r sleidiau eu sganio. Doeddwn i ddim yn siŵr byddai'r canlyniadau yn dda oherwydd bod nhw mor hen - e.e. 50-60 blwydd oed! Anfonais gant a hanner o'r sleidiau at gwmni a dw i wrth fy modd gyda'r



Want to contribute ? But ...

It takes a bit of courage to write in a language which you have only recently learned, particularly Welsh. There are mutations to think about and the question of whether something is masculine or feminine. Nobody wants to make a mistake and feel foolish, not that you should feel foolish. You would be admired for trying. If only there was a way of checking everything you have written ... well, good news – there is.

Canolfan Bedwyr, part of Bangor University has developed software called Cysill and it will check your spelling, mutations and whether you have got the gender right. You can install it so it works through Microsoft Word but at the moment I can't seem to get the details up on screen. However there is also an online version where you cut and paste your text into the box (you will have to do it bit by bit). You just need to press the button and watch it work.

Also did you know that you can install Welsh language software so that mis-spellings are highlighted as you type. You can get that, and instructions about installation from the Microsoft website.

So there you are, do all that and try out your new software by, say, writing a story and when you are happy with it send it to me. I will then run my eye over it and you will have your first story published – and won't you feel proud!

Cysill Ar Lein – just put “Cysill ar lein” in your search engine and then just use cut and paste.

Geirfa

Hedbangars Byd Natur

Hadau – seeds
 Pryfed genwair – worms
 Morgrug – ants
 Neithdar – nectar
 Rheswm bodoli – reason for living
 Y Bod Mawr – God
 Pig groes – crossed beak
 Cnocell y coed – woodpecker
 W'st ti – you know (north Welsh)

Fy Nhaith Gymraeg

Dod ymlaen yn y byd – get on in the world
 Mwyafrif llethol – vast majority
 Agwedd – attitude
 Dim amheuaeth – no doubt
 Cyfoethogi – to enrich
 Iaith fyw – living language
 Parhau – to continue
 Yn gyson – regularly
 Y Wladfa – Patagonia
 Anesmwyth – uneasy
 Rhoi cynnig arni hi – to have a go
 Cam cyntaf – first step
 Ad-drefniad – to reorganise
 Llywodraeth lleol – local government
 Rhoi'r ffidil yn y to – to give up
 Ysbrydoli – to inspire
 Hunangofiant – autobiography
 Perthynas – a relative
 Blasu – the name of a book at the time
 Cysylltiad – connection
 Dymunol – pleasant
 Cynorthwyol – supportive
 Ar wahân – apart from
 Awgrymu – to suggest
 Llandeilo Ferwallt – Bishopston
 Cyffrous – exciting
 Amgylchedd – environment
 Croesawgar- welcoming
 Heb amheuaeth – without doubt
 O ganlyniad – as a result of
 Cyfathrebu – communication

Ymweliad â Thŷ Ddewi

CYD – an organisation that supported learners
 Disgleirio to shine
 Brigdonnwr – surfer

Chwant bwyd – hunger
Eglwys Gadeiriol – cathedral
Trawiadol – striking
Er enghraifft – for example
Gwaith ffret – fretwork
Cysegrfa – sanctuary
Cerdddelw – statue, graven image
Trysorfa – treasury
Modrwy – ring (to wear on your finger)
Hen llawysgrifau – old manuscripts
Swynol – enchanting
Tangnefeddus – peaceful
Cynnau – to light (a candle)

Ffotomarathonau dan Glo

Cystadleuaeth – competition
Cymryd rhan – to take part
Cyfrannwr – contributor
Cynrychioli – to represent
Geiriau awgrymog – descriptive words
Cyffro – excitement
Cyflwyno – to present
Trefnwr – the organiser
Dathliad – celebration
Mabwysiadu – to adopt
Dwyrain Pell – Far East
Heintus – infectious
Yn ogystal â – as well as
Lwc dechreuwr – beginners luck
Plannu – to plant
Gwirfoddoli – to volunteer
Cof – Memory

Delweddau o Hen Sleidiau Lliw

Sleidiau lliw – colour slides
Graddio – to graduate
Ledled y wlad – all over the land
Delwedd – image
Taflunio – to project
Dyfodiad – the coming of